GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

Mae'r cygor ar ddefnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd wedi newid. Gallwch ddod o hyd i'r cyngor diweddaraf yn

www.nice.org.uk/guidance/C95/PublicInfo a
www.nice.org.uk/guidance/C126/PublicInfo

# Sintigraffeg darlifiad myocardaidd ar gyfer canfod a rheoli angina a thoriad myocardaidd

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n dioddef o angina a thoriad myocardaidd (clefyd rhydweliïau coronaidd), eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd

Tachwedd 2003

**Sintigraffeg dalrifiad myocardaidd ar gyfer canfod a rheoli angina a thoriad myocardaidd**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n dioddef o angina a thoriad myocardiadd (clefyd rhydwelïau coronaidd), eu teuluoedd a'u gofalwyr, a'r cyhoedd**


**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2003
**Dyddiad adolygiad:** Tachwedd 2006


**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0374. Mae fersiwn Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0373. Mae arfarniad technegol NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno, sef *Myocardial perfusion scintigraphy for the diagnosis and management of angina and myocardial infarction*, ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk/TA073guidance). Gellir cael fersiwn byr o'r arweiniad ('quick reference guide') hefyd o'r wefan (www.nice.org.uk/TA073quickrefguide) a hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0372.

---


## Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-453-1

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Tachwedd 2003
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argreffir yn ôl y galw



© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Tachwedd 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw arweiniad NICE? | 4 |
| Beth yw clefyd rhydwelïau coronaidd? | 5 |
| Beth yw sintigraffeg darlifiad myocardaidd? | 6 |
| Beth mae NICE wedi ei argymell ar gyfer sintigraffeg darlifiad myocardaidd? | 7 |
| Beth ddylwn i ei wneud nesaf? | 9 |
| A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad? | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Beth yw arweiniad NICE?

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn rhan o’r GIG. Mae’n cynhyrchu arweiniad (argymhellion) ar ddefnyddio meddyginiaethau, offer meddygol, profion diagnostig a gweithdrefnau clinigol a llawfeddygol o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

I gynhyrchu'r arweiniad hwn, bydd NICE yn edrych ar ba mor dda y mae'r feddyginiaeth, yr offer neu'r weithdrefn yn gweithio a hefyd ar ba mor dda y mae’n gweithio o’i gymharu â’r gost. Gelwir y broses hon yn arfarniad. Mae'r broses o arfarnu yn cynnwys gweithgynhyrchwyr y feddyginiaeth neu'r offer y cynhyrchir yr arweiniad ar ei gyfer, a'r sefydliadau sy'n cynrychioli'r ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol, y cleifion a'u gofalwyr y mae’r arweiniad yn effeithio arnynt.

Gofynnwyd i NICE edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar ddefnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd ar gyfer canfod a rheoli clefyd rhydwelïau coronaidd (yn benodol, angina a thoriad myocardaidd). Gofynnwyd i NICE ddarparu arweiniad a fydd yn cynorthwyo’r GIG yng Nghymru a Lloegr i benderfynu pryd y dylid defnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd.

## Beth yw clefyd rhydwelïau coronaidd?

Mae’r galon yn gyhyr y mae angen cyflenwad parhaus o ocsigen a maeth arni er mwyn parhau i weithio. Caiff y rhain eu cludo yn y gwaed, a gelwir y pibellau sy’n cario gwaed i gyhyr y galon yn rhydwelïau coronaidd.

Bydd clefyd rhydwelïau coronaidd (a elwir hefyd yn glefyd coronaidd y galon) yn digwydd pan fydd braster yn casglu ym muriau’r rhydwelïau, gan gulhau’r gofod y tu mewn iddynt. Ceir sawl rhydweli goronaidd, a gellir effeithio ar unrhyw rai ohonynt. Yn aml, caiff dwy rydweli neu fwy eu culhau fel hyn.

Gallai culhau’r rhydwelïau olygu nad ydynt yn cyflenwi digon o waed i gario’r holl ocsigen sydd ei angen ar gyhyr y galon. Mae hon yn broblem benodol pan fydd pobl yn gwneud ymarfer corff, pan fydd angen i’r galon weithio’n galetach.

Symptom mwyaf cyffredin clefyd rhydwelïau coronaidd yw angina, sef poen neu deimlad o dyndra yn y frest, a allai ymledu’n aml i’r cefn, yr ysgwyddau a’r breichiau. Caiff achos o angina ei ysgogi yn aml gan weithgaredd corfforol. Mewn achosion difrifol, caiff rhydweli sydd wedi culhau ei blocio, a bydd hyn yn achosi trawiad ar y galon (a elwir hefyd yn ‘doriad myocardaidd’). Gyda thrawiad ar y galon, ni all gwaed gyrraedd rhan o gyhyr y galon a bydd y rhan yr effeithir arni yn marw.

# Beth yw sintigraffeg darlifiad myocardaidd?

Mae sintigraffeg darlifiad myocardaidd yn galluogi meddygon i weld pa mor dda y mae'r gwaed yn cyrraedd cyhyr y galon drwy'r rhydwelïau coronaidd. Edrychodd NICE ar sintigraffeg darlifiad myocardaidd sy'n defnyddio math o ddelweddu a elwir yn domograffeg cyfrifiadurol pelydriad-ffoton-unigol (a gaiff ei dalfyrru i SPECT).

Mae sintigraffeg darlifiad myocardaidd yn golygu chwistrellu ychydig o sylwedd ymbelydrol (a elwir yn draswr) i mewn i bibell waed drwy diwb bach. Caiff camera arbennig, a elwir yn gamera gama, ei symud o amgylch y corff am 10 i 20 munud. Mae'r camera gama yn olrhain y traswr ymbelydrol a bydd yn cynhyrchu lluniau y gall y meddyg eu defnyddio i ddangos pa mor dda y mae'r gwaed yn cyrraedd y galon.

Gwneir hyn pan fydd yr unigolyn yn gorffwyso a phan fydd ei galon yn curo'n gyflymach. Efallai y gofynnir iddo gynyddu curiad ei galon drwy wneud ymarfer corff (er enghraifft, drwy gerdded neu loncian ar felin draed), ond fel arfer bydd y meddyg yn rhoi meddyginiaeth iddo a fydd yn gwneud i'w galon ymddwyn fel pe bai wedi bod yn gwneud ymarfer corff.

Prawf arall y gellir ei ddefnyddio i wneud diagnosis o glefyd rhydwelïau coronaidd yw electrogardiograffeg straen (a gaiff ei dalfyrru i ECG straen). Mae ECG straen yn golygu cerdded ar felin draed tra bydd y galon yn cael ei monitro.

## Beth mae NICE wedi ei argymell am sintigraffeg darlifiad myocardaidd?

Yn ystod yr arfarniad, darllenodd a chlywodd Pwyllgor Arfarnu NICE dystiolaeth gan:

- astudiaethau ansawdd uchel o sintigraffeg darlifiad myocardaidd
- meddygon sydd â gwybodaeth arbenigol o glefyd rhydwelïau coronaidd a'r driniaeth ohono
- unigolion sydd â gwybodaeth arbenigol am y materion sy'n effeithio ar bobl sydd â chlefyd rhydwelïau coronaidd
- sefydliadau sy'n cynrychioli barn pobl y bydd yr arweiniad yn effeithio arnynt (am eu bod hwy, neu rywun y maent yn gofalu amdano, yn dioddef o'r cyflwr neu am eu bod yn y gweithio yn y GIG a'u bod yn rhan o ddarpariaeth gofal ar gyfer pobl sy'n dioddef o'r cyflwr)
- gweithgynhyrchwyr y cynnyrch a ddefnyddir mewn sintigraffeg darlifiad myocardaidd.

Ceir crynodeb o'r dystiolaeth yn yr arweiniad llawn (gweler tudalen 10 am fanylion). Rhoddir mwy o wybodaeth am yr astudiaethau yn yr adroddiad asesu ar gyfer yr arfarniad hwn (gweler tudalen 10 am fanylion).

Gwnaeth NICE yr argymhellion canlynol am ddefnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd ar gyfer canfod a rheoli clefyd rhydwelïau coronaidd o fewn y GIG yng Nghymru a Lloegr.

## *Os yw eich meddyg yn meddwl fod gennych glefyd rhydwelïau coronaidd*

Mae NICE yn argymell mai sintigraffeg darlifiad myocardaidd gan ddefnyddio SPECT ddylai gael ei gwneud fel y prawf cyntaf ar gyfer pobl lle mae'n bosibl na fyddai ECG straen yn rhoi canlyniadau cywir neu glir. Gall hyn fod yn wir am ferched, pobl sydd â phatrymau anarferol yng ngweithredu trydanol eu calon (gellir canfod y patrymau hyn drwy ECG), pobl sydd â chlefyd siwgr neu bobl sydd yn ei chael yn anodd neu'n amhosibl gwneud ymarfer corff.

Mae NICE yn argymell hefyd y dylid defnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd gan ddefnyddio SPECT ar gyfer diagnosis o bobl sy'n llai tebygol o fod â chlefyd rhydwelïau coronaidd ac sy'n wynebu llai o risg o gael problemau â'u calon (megis trawiad y galon) yn y dyfodol. Gellir asesu'r posibilrwydd y caiff rhywun glefyd rhydwelïau coronaidd drwy ystyried sawl ffactor, gan gynnwys

oedran, rhyw, cefndir ethnig a hanes teuluol yn ogystal â chanlyniad ei archwiliad meddygol a phrofion gwaed neu brofion ar y galon megis ECG.

### *Os yw'n hysbys fod gennych glefyd rhydwelïau coronaidd*

Mae NICE yn argymell y dylid defnyddio sintigraffeg darlifiad myocardaidd gan ddefnyddio SPECT fel archwiliad ar gyfer pobl sy'n dal i ddoeddef symptomau yn dilyn trawiad y galon neu er gwaethaf triniaeth i wella llif y gwaed i'r galon.

## Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

Os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn gofalu amdano glefyd rhydwelïau coronaidd dylech drafod yr arweiniad hwn gyda'ch meddyg.

## A fydd NICE yn adolygu ei arweiniad?

Bydd. Caiff yr arweiniad ei adolygu ym mis Tachwedd 2006.

# Gwybodaeth bellach

Mae gwybodaeth bellach am NICE a'r arweiniad llawn ar sintigraffeg darlifiad myocardaidd ar gyfer canfod a rheoli angina a thoriad myocardaidd a gyhoeddwyd i'r GIG ar gael ar wefan NICE (www.nice.org.uk). Mae'r adroddiad asesu, sy'n cynnwys manylion yr astudiaethau a ystyriwyd, hefyd ar gael o wefan NICE. Mae fersiwn byr o'r arweiniad ('quick reference guide') ar gael oddi ar y wefan ac o Linell Ymateb y GIG (rhif cyfeirnod N0372).

Os oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, ceir mwy o wybodaeth am glefyd rhydwelïau coronaidd o wefan Galw Iechyd Cymru (www.nhsdirect.nhs.uk). Gallwch ffonio Galw Iechyd Cymru hefyd ar 0845 46 47.